# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 15FED GORFFENNAF, 2022**

Lleoliad

**RHITHIOL AR ZOOM**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2022)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Medwyn Hughes |
| Nia Wyn Jeffreys | June Jones |
| Menna Jones | Olaf Cai Larsen |
| Dafydd Meurig | Dyfrig Siencyn |
| Ioan Thomas | Gwynfor Owen |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Angela Russell | Rob Triggs |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Elwyn Jones

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022 / 2023

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2022 / 2023

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed o Chwefror 2022 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

## 8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL

I ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn unig

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 07-02-2022**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Anwen Hughes, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Mair Rowlands, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Y Cynghorydd Eric M Jones a'r Cynghorydd Selwyn Griffiths oherwydd bod eu plant yn gweithio yn y Cyngor. Nid oedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan mai'r Polisi Tâl oedd yn cael ei adolygu ac nid cyflogau swyddogion.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26ain o Dachwedd 2021 fel rhai cywir

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TAL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2012/13, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Adroddwyd nad oedd addasiadau yn cael eu cynnig i'r polisi eleni,

Tynnwyd sylw at adolygiad cyflogau Prif Swyddogion. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi argymell adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion, ond na ddylid cynnal yr adolygiad hyd nes bod penderfyniad ar lefel cenedlaethol wedi ei wneud yn y lle cyntaf. Adroddwyd nad oedd cytundeb wedi ei gyrraedd hyd yma ar gyfer 2021/22. Y bwriad yw cynnal yr adolygiad a chyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor o ganlyniad i gyhoeddi'r gytundeb cenedlaethol.

Yng nghyd-destun cyflogau swyddi o dan lefel prif swyddogion, nodwyd, fel cyflogau prif swyddogion nad oedd cytundeb cenedlaethol wedi ei gyrraedd. Ategwyd bod trafodaethau yn parhau rhwng yr Undebau a'r Cyflogwyr, bod balot wedi ei chynnal a bod ymateb i'w ddisgwyl yn yr wythnosau nesaf.

Yn dilyn cyhoeddiad gan Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2021) i ariannu cynnydd yng nghyflogau staff maes gofal i lefel Cyflog Byw (£9.90), bydd angen i gynghorau sicrhau cydymffurfiad a'r cyfarwyddyd hwnnw o fis Ebrill 2022 Nodwyd, petai cynnydd mewn cyflogau 2021/22 a 2022/23 byddai cyflog yr awr i ofalwyr y Cyngor, uwchlaw'r Cyflog Byw; os na fydd cytundeb cenedlaethol, bydd rhaid cymryd camau i godi'r lefelau cyflog o'r 1af o Ebrill 2022, yn unol â'r cyfarwyddyd.

Ategwyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Eglurwyd bod y berthynas rhwng tâl Prif Swyddogion a gweithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas a gorau yn ei swyddi amrywiol, wrth gynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi. Amlygwyd bod Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser) - cymhareb Gwynedd ar hyn o bryd yn 1:6.4.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, nodwyd bod cytundeb cenedlaethol wedi ei gyrraedd i gynyddu cyflogau Prif Weithredwyr o 1.5%. Yn ddarostyngedig i dderbyn y Datganiad Polisi Tâl, bydd yr adroddiad i'r Cyngor Llawn (03/03/22), yn cael ei ddiweddaru i arddangos y cynnydd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Pam na ellid codi'r Cyflog Byw i £10 yr awr – rhif cyflawn? – hyn yn debygol o ddenu mwy o weithwyr i'r maes gofal
- Angen cynnig cyflog mwy cystadleuol i weithwyr maes gofal, gwaith o fewn y sector breifat, megis siopau manwerthu, yn talu mwy am lai o gyfrifoldebau
- Angen sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gost o gynyddu'r tâl i weithwyr maes gofal
- Bod y Cyngor yn gweithio at darged lefel isel cyflog byw yn hytrach na tharged uwch – angen gweithio i wella hyn
- Angen gwybodaeth am y gost o gynyddu cyflogau gofalwyr - ystyried sefyllfaoedd gwahanol
- Bod yswiriant gwladol yn cynyddu yn mis Ebrill 2022 i gyfarch cynnydd mewn cyflogau maes gofal – lle mae'r arian yma?
- Gofalwyr yn gwneud gwaith anodd – yn cynnig gofal gyda pharch ac urddas – angen cydnabod hyn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chytundeb ar godiad cyflog 2021/22, ac a fydd ôl daliad i'r gweithlu, nodwyd bod trefniadau yn eu lle i sicrhau ôl daliad cyn Mawrth 31ain 2022 (cyn cynyddu'r yswiriant gwladol 1/4/22) os y ceir cytundeb cenedlaethol cyn cau'r gyflogres ar gyfer mis Mawrth.

Mewn ymateb i sylw am ddwyn perswâd ar y Llywodraeth i gynyddu cyflogau gweithwyr maes gofal, nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda chynghorau eraill lle daethpwyd i'r casgliad mai £12 yw'r targed cyflog yr awr os am fod yn gystadleuol. Ategwyd bod Cynghorau wedi bod yn lobio ar hyn ers dros flwyddyn ac mai'r gwaith lobio yma sydd wedi arwain at y cynnydd diweddar (sydd yn agosach i £10 yr awr). Derbyn nad yw'r swm yn adlewyrchu'r gwaith sydd yn cael i wneud ond bydd y cynghorau yn parhau i lobio ac anogwyd yr aelodau i wneud yr un peth.

Mewn ymateb i sylw y dylid rhoi codiad cyflog i ofalwyr yn unig, atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor wedi mabwysiadau Cynllun Arfarnu Swyddi sydd yn ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal. Petai penderfyniad yn cael ei wneud i gynyddu cyflogau gofalwyr, byddai angen ystyried pob swydd sydd yn cael ei harfarnu ar yr un lefel. Ategwyd bod adolygiad o gynnwys swydd-ddisgrifiadau perthnasol o fewn y Gwasanaeth Oedolion yn bresennol.

Mewn ymateb i sylw bod y Cyngor yn cyfrannu at gyflogau gofalwyr yn y sector breifat nodwyd bod lefelau tâl y sector breifat yn is na'r sector gyhoeddus a bod y cyfraniad yn cael ei osod fel rhan o'r gyllideb.

Mewn ymateb i sylw bod angen cynnal trafodaethau pellach ar lefelau cyflogau maes gofal, nodwyd bod y gyllideb yn cael ei chraffu ym Mhwyllgor Archwilio a Llywodraethu (10/02/22), ond y byddai modd cyfeirio'r drafodaeth am gyflogau swyddi penodol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Ategwyd mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion oedd craffu ac ystyried y polisi tâl.

**PENDERFYNWYD**

**Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth y 3ydd 2022, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2022/23**

Dechreuodd y cyfarfod am 4:00pm a daeth i ben am 4:50pm